- Cymryd gofal rhesymol dros eich iechyd a diogelwch eich hun a phobl eraill fel sy’n briodol yn y gweithle gan gydymffurfio gyda’r ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch
- Cynnal pob gweithgaredd yn unol â'r cod ymarfer a osodir gan Gyngor y Gweithlu Addysg.
- Hyrwyddo Cyfle Cyfartal.

a) Fel amod o'ch cyflogaeth gellir gofyn i chi gyflawni dyletswyddau eraill fel sy'n rhesymol ofynnol ohonoch gymesur â'ch graddfa

b) Mae hwn yn ddisgrifiad o'r swydd fel y mae ar hyn o bryd. Mae'n arfer gan Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales o bryd i'w gilydd i archwilio disgrifiadau swyddi y gweithwyr ac eu diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol i'r swydd sy'n cael ei chyflawni, neu i ymgorffori pa bynnag newidiadau a gynhigir.

c) Ni fwriedir i'r disgrifiad i sefydlu diffiniad gyfan o'r swydd ond amlinelliad o'r dyletswyddau.

**<u>Tiwtor – Manyleb Person</u>**

| MEINI PRAWF | HANFODOL | DYMUNOL |
|---|---|---|
| **ADDYSG, HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU** | Tystysgrif Dysgu leiafswm lefel 5, neu yn fodlon gweithio tuag at y cymhwyster<br><br>Cofrestriad gyda'r Cyngor Gweithlu Addysg | Cymhwyster Sgiliau Hanfodol<br><br>Cymhwyster pwnc hyd at o leiaf lefel uwch na'r hyn a addysgir neu brofiad a chymhwysedd profedig<br><br>Lefel 3 Asesu A1<br><br>Lefel 4 Sicrhau Ansawdd Mewnol V1<br><br>Cymwysterau canllawiau addysg oedolion |
| **PROFIAD** | Profiad o ddarparu a chyflwyno dysgu yn y pwnc<br><br>Profiad o gynllunio dysgu, gan gynnwys cynlluniau gwersi a chynlluniau gwaith yn unol â gofynion y cyrff dyfarnu | Profiad o addysgu mewn lleoliadau cymunedol<br><br>Profiad o addysgu oedolion<br><br>Profiad o weithio gyda neu ar gyfer grwpiau gwirfoddol neu elusennol<br><br>Profiad o ddilyn gofynion ansawdd ac arolygu<br><br>Profiad o ymgorffori'r iaith a'r dimensiwn Cymraeg<br><br>Profiad o addysgu'n ddwyieithog/drwy gyfrwng y Gymraeg |
| **SGILIAU, GWYBODAETH, AGWEDDAU** | Dealltwriaeth ac ymrwymiad i ethos Addysg Oedolion Cymru<br><br>Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da<br><br>Y gallu i gymell ac ysgogi dysgwyr anhraddodiadol<br><br>Y gallu i asesu dysgwyr<br><br>Y gallu i gefnogi anghenion dysgu gwahaniaethol<br><br>Y gallu i gynghori a chefnogi dysgwyr<br><br>Sgiliau trefnu a gweinyddu da<br><br>Sgiliau TG da, yn cynnwys prosesu geiriau ac e-bost, a'r gallu i gyrchu data<br><br>Bod yn gyfarwydd â gwerthoedd a phrosesau dysgu cymunedol a/neu weithle/Undebau Llafur | Dealltwriaeth o systemau ansawdd a hunanasesu<br><br>Gallu i gefnogi anghenion llythrennedd |

